## Swyddog Cymorth Gweithredol

- **£24,496.00 y flwyddyn (Pro rata - £14,697.60)**
- **20 awr yr wythnos yn ddelfrydol dros 5 diwrnod. Gellir trafod hyn yn y cyfweliad**
- **Contract parhaol**
- **Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd – Er bod dull cymysg o weithio wyneb yn wyneb ac adref ar gael yn Cymorth i Ferched Cymru, mae'r rôl hon yn gofyn am bresenoldeb rheolaidd yn ein swyddfa yng Nghaerdydd yn ogystal â rhywfaint o waith ar benwythnosau a gyda'r nos. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhoi yn y cyfweliad.**

**Dyddiad cau: Dydd Mawrth 3ydd Rhagfyr 2025**
**Cyfweliadau: Dydd Mawrth 9fed a Dydd Iau 11fed Rhagfyr 2025**

**Cynhelir cyfweliadau dros Microsoft Teams**

*Mae'r swydd hon yn agored i ferched yn unig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn unol ag Atodlen 9, Rhan 1. Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein sefydliad yn lle cynhwysol i weithio.*

## Swydd ddisgrifiad cryno

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhan o'n tîm Cefnogi Busnes, gan adrodd yn uniongyrchol i'n Prif Swyddog Gweithredol. Fel rhan o'r swydd, byddwch yn:

- **Darparu cymorth gweithredol i'r Prif Swyddog Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.**
- **Cydlynu'r holl weithgareddau sy'n ymwneud ag amserlen flynyddol y Bwrdd.**
- **Darparu cymorth gweinyddol effeithiol i'r Prif Swyddog Gweithredol ac ar draws y sefydliad fel y bo angen, gan gynnwys rheoli dyddiadur a gohebiaeth y Prif Swyddog Gweithredol yn effeithiol.**
- **Darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd mewnol ar draws y sefydliad.**
- **Darparu cymorth gweinyddol cyffredinol ar draws y sefydliad, gan gynnwys cymryd cofnodion, casglu gwybodaeth a chynorthwyo gyda chyflawni terfynau amser adrodd trwy gasglu tystiolaeth.**

**Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.**

## Manyleb person

### Sgiliau a phrofiad hanfodol

- Darparu cefnogaeth PA/gweinyddol a/neu ysgrifenyddol i unigolion neu dîm ar lefel uwch, yn enwedig y Prif Swyddog Gweithredol.
- Darparu cefnogaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Datblygu a chynnal systemau gweinyddol a gwybodaeth gan gynnwys storio ac adalw gwybodaeth.
- Casglu a pharatoi gwybodaeth gywir ac amserol yn unol â therfynau amser.
- Gweithdrefnau cywir ar gyfer delio gyda gwybodaeth gyfrinachol iawn a'i phroses.
- Gofynion diogelu data a'r angen i gynnal cyfrinachedd ym mhob maes o waith.
- Dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'i effaith.
- Sgiliau trefnu rhagorol, yn gallu cadw cofnod o sawl set o gamau gweithredu ac amserlenni gwaith.
- Y gallu i gydbwyso terfynau amser sy'n gwrthdaro yn effeithiol.
- Bod yn hyblyg a meddu ar ddull sy'n canolbwyntio ar atebion gyda dull gweithredol a phositif.
- Sylw gwych i fanylion.
- Sgiliau cyfathrebu cryf, sy'n gallu sefydlu a meithrin perthynas waith dda gyda chydweithwyr a chysylltiadau allanol.
- Y gallu i fod yn ymatebol i ofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ac yn gwrthdaro ac addasu i newid.
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.
- Y gallu i gynhyrchu deunydd ysgrifenedig (cyhoeddusrwydd, briffiau, ac adroddiadau).
- Y gallu i gydlynu cyfarfodydd a chymryd cofnodion.
- Llythrennedd TG ardderchog, gan gynnwys tystiolaeth o ddefnydd helaeth o MS Office 365 a meddalwedd cyflwyno, yn ogystal â'r gallu i ddysgu a defnyddio pecynnau meddalwedd newydd yn gyflym.
- Ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol a chyfle cyfartal a'r gallu i gymhwyso dull croestoriadol i bob maes gwaith.
- Tystiolaeth o ymrwymiad i werthoedd, gweledigaeth a chenhadaeth Cymorth i Ferched Cymru.
- Parodrwydd i deithio a mynychu digwyddiadau gyda'r nos a thros y penwythnos yn achlysurol.

